| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **17 Rhagfyr 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd David Smith**<br>**Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid** |
| **Teitl:** | **Strategaeth Tir y Cyhoedd** |

---

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Byrdwn yr adroddiad hwn yw ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar strwythur a chynnwys Strategaeth Tir y Cyhoedd drafft y Cyngor a'r Cynllun Gwella cysylltiedig. Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gwella ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

## 2. Beth yw'r rheswm am lunio'r adroddiad hwn?

Hyd yma, nid yw'r Cyngor wedi llunio Strategaeth Tir y Cyhoedd sy'n amlinellu'r ffordd y mae'n bwriadu delio â materion sy'n effeithio ar dir y cyhoedd yn y Sir. Argymhellodd adroddiad Archwilio Mewnol i'r ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli tir y cyhoedd, fod angen Strategaeth o'r fath er mwyn datblygu eglurder a chydlyniad o gwmpas y ffordd y mae'r Cyngor yn delio â'r maes pwysig hwn. Yr ail argymhelliad yn yr adroddiad Archwilio hwn oedd sicrhau cydweithio gwell rhwng gwasanaethau allweddol a dull mwy corfforaethol o droi at gynlluniau'r Cyngor ac ymateb i faterion sy'n deillio o dir y cyhoedd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

**3.1** Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Strategaeth Tir y Cyhoedd a'r Cynllun Gwella drafft.

**3.2** Bod y Cabinet yn cytuno i gynnal adolygiad o'r Cynllun Gwella bob blwyddyn, gan ddarparu diweddariadau ar gynnydd trwy'r broses Her Gwasanaeth ar gyfer y gwasanaethau perthnasol a chydag ymglymiad yr Aelod Arweiniol.

## 4. Manylion yr adroddiad

Datblygwyd y Strategaeth Tir y Cyhoedd drafft yn dilyn ymchwil i strategaethau tebyg sy'n bodoli mewn mannau eraill yng Nghymru a thu hwnt gan gynnwys ystyried rhai strategaethau o dramor. Roedd nifer o swyddogion allweddol ar lefel Cyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth ynghlwm wrth ddechrau ffurfio'r Strategaeth. Rhannwyd drafft cynharach o'r Strategaeth hon mewn gweithdy o uwch reolwyr a rheolwyr canol sy'n cyfrannu at gyflawni gwasanaethau tir y cyhoedd yn y Sir. Galluogodd y gweithdy hwn ar gyfer cynnal datblygiad pellach o'r Strategaeth. Mae'r Aelod Arweiniol hefyd wedi bod yn cymryd rhan mewn camau amrywiol wrth ddatblygu'r Strategaeth. Nod y ddogfen yw bod yn ddogfen strategol sy'n diffinio'r hyn a olygir wrth y term tir y cyhoedd a sut gall y

Cyngor reoli a dylanwadu ar y gwaith a wneir. Mae’r Strategaeth yn ceisio diffinio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth wrth weithredu newid er mwyn gwella cyflwr tir y cyhoedd.

Gwnaed ymgais i ddiffinio’n gryno rolau a chyfrifoldebau aelodau allweddol, Archwilio, Grwpiau Aelod Arweiniol a swyddogion allweddol. Nodwyd pedair egwyddor strategol sef:

- tir y cyhoedd hygyrch ac wedi’u cysylltu’n dda
- amgylchedd glân a thaclus
- diogelu a datblygu hunaniaeth leol
- amgylchedd diogel

Amlinellir disgrifiadau manylach am yr hyn a olygir wrth y pedair egwyddor strategol hyn ar dudalennau 5-8 y ddogfen ddrafft, ynghyd â rhai enghreifftiau ymarferol o rai datblygiadau dros y misoedd a’r blynyddoedd diwethaf. Bydd y Strategaeth hon yn helpu i gyflawni blaenoriaeth gorfforaethol “Strydoedd Glân a Thaclus” ynghyd â’r flaenoriaeth ar gyfer “Datblygu’r economi leol” ond mae’n llawer ehangach na’r ddwy flaenoriaeth hyn ar eu pen eu hunain, gan ei bod yn effeithio ar fywyd ein holl drigolion a’r bobl hynny sy’n gweithio ac yn ymweld â Sir Ddinbych.

Pwrpas y Strategaeth hon a’r Cynllun Gwella cysylltiedig yw dylanwadu ar y ffordd mae gwasanaethau’r Cyngor yn gweithio yn y dyfodol a’r ffordd mae’r Cyngor yn cysylltu â phartneriaid o ran ein gwaith wrth wella tir y cyhoedd. Yn ogystal â datblygu a chytuno’r Strategaeth hon, bydd mwy o waith yn dilyn i ddod â meysydd gwasanaeth allweddol at ei gilydd i weithio’n fwy effeithiol ar lefel gydlynol er mwyn cyflwyno argymhellion y Strategaeth. Enghraifft o’r math hwn o weithgaredd, sydd eisoes wedi gweithio’n dda, yw datblygu a gweithredu’r Strategaeth Gwrth-Faeddu. Yn ogystal, bydd dwyn ynghyd y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol mewn un gwasanaeth cydlynol yn Sir Ddinbych, yn chwarae rôl hollbwysig wrth ddiogelu gwell cydlyniad o weithgarwch y Cyngor ei hun. Gwasanaethau eraill sy’n chwarae rhan bwysig yn y gwaith hwn yw’r Gwasanaeth Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd, y Gwasanaeth Tai a’n Gwasanaeth Cyfathrebu, Hamdden a Marchnata. Er mwyn ymateb i’r ail argymhelliad o’r adroddiad Archwilio, mae’r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid wedi dod â Phenaethiaid Gwasanaeth perthnasol at ei gilydd i weithio ar ddatblygiadau allweddol.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y Strategaeth hon yn cynorthwyo wrth gyflawni’r flaenoriaeth gorfforaethol ar y Strydoedd Glân a Thaclus ynghyd â’r flaenoriaeth gorfforaethol ar ‘Ddatblygu’r economi leol”.

## 6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Rhagwelir y bydd llawer o’r gwaith i gyflawni’r Strategaeth hon o fewn cyllidebau’r gwasanaeth presennol ac o fewn unrhyw ddyraniadau’r Cynllun Corfforaethol ar gyfer y ddwy flaenoriaeth gorfforaethol a restrir uchod.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wneir ar y penderfyniad?**

Bydd yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb, a wnaed ar gynnig y strategaeth ddrafft (gweler Atodiad 2), yn cynnig gwybodaeth ychwanegol i ychwanegu at ddealltwriaeth yr Aelod o'r materion Strategaeth a Chydraddoldeb drafft sy'n deillio ohoni.

**8. Pa ymgyngoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Cynhaliwyd ymgyngoriadau gyda swyddogion perthnasol o'r amryw wasanaethau sy'n cyflwyno agweddau ar dir y cyhoedd yn yr Awdurdod, gyda'r Aelod Arweiniol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Ymgynghorwyd hefyd â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, a'r sector gwirfoddol a Chyfoeth Naturiol Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor Archwilio Cymunedau'r Strategaeth ddrafft yn ei gyfarfod ym mis Medi a chymeradwyodd ef gyda rhai argymhellion a ymgorfforwyd yn y drafft cyfredol. Roedd eu prif ofid yn ymwneud â chael Cynllun Gwella clir, sydd bellach ynghlwm gyda'r Strategaeth.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd rhaid bodloni unrhyw gostau ychwanegol sy'n codi o weithrediad y Strategaeth o'r adnoddau presennol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ni eu gwneud i'w lleihau?**

Os bydd y Cyngor yn penderfynu peidio â datblygu Strategaeth Tir y Cyhoedd, mae yna risg o beidio â bodloni argymhelliad sydd wedi dod o adroddiad Archwilio Mewnol, a bydd y diffyg cydlyniad a nodir gan yr Archwiliad yn parhau'n broblem yn yr Awdurdod i'r dyfodol. Mae hyn yn cyflwyno risg oherwydd gallai'r dull o drafod tir y cyhoedd yn y Cyngor fod yn llai effeithiol a chydlynol. Bydd datblygu Strategaeth gytûn ar gyfer tir y cyhoedd a strwythur gweithredol a fydd yn hyrwyddo gweithrediad y Strategaeth hon ar y cyd rhwng adrannau perthnasol yn lleihau'r risg ac o bosibl yn gwella'r dull o droi at dir y cyhoedd yn yr Awdurdod, gan arwain at werthusiadau posibl gan drigolion ac ymwelwyr y Sir.

**11. Y Grym i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 fel grymoedd cyffredinol, yn galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau yn hyn o beth.

At hynny, mae'r rhan cyd-destun polisi ar dudalennau 9 a 10 y Strategaeth ddrafft yn amlinellu'r fframweithiau Cyfreithiol sy'n rheoli sut caiff tir y cyhoedd ei reoli.

Mae Erthygl 6.3.3(a) Cyfansoddiad y Cyngor yn gosod rôl archwilio mewn perthynas â datblygu polisïau.

**Swyddog Cyswllt**
Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid
Ffôn: 01824 712501